

# Newyddion yn gryno

Mae Dominic Eggbeer, pennaeth Dylunio Llawfeddygol yn PDR, sef y ganolfan dylunio ac ymchwil yn y Brifysgol, wedi bod yn rhan allweddol o'r gwaith o ddylunio sbilintiau i'w hargraffu'n 3D er mwyn helpu pobl ag anafiadau sy'n newid bywydau sy'n cael eu trin gan arbenigwyr yn Ysbyty Treforys.

Llwyddodd y Brifysgol i sicrhau €500,000 o gyllid i gefnogi Erasmus+, sef rhaglen yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer addysg, hyfforddi iuenctid a chwaraeon sy'n galluogi myfyrwyr i gymryd rhan mewn rhaglenni cyfnewid myfyrwyr neu hyfforddaethau ac yn galluogi gweithwyr proffesiynol i addysgu neu hyfforddi dramor.






Cafodd David Lloyd, Cyfarwyddwr y Diwydiant Bwyd ym Mhrifysgol Met Caerdydd, ei benodi'n Is-gadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, sef llais y sector bwyd a diod yng Nghymru.

Mae gwaith ymchwil y Prosiect Rhyngwladol Calonnau Primatiaid (IPHP) gan Brifysgol Met Caerdydd, ar y cyd ag ymarferwyr milfeddygol, seicolegwyr cardiaidd a chardiolegwyr wedi rhoi cipolwg ar lechyd y galon a chlefyd y galon ymlith tsimpansiaid, yn ogystal â thynnu sylw at yr hyn sy'n debyg rhwng calonnau bodau dynol a phrimatiaid.

Gwnaethpwyd sawl penodiad o fewn Undeb Rygbi Cymru eleni, gyda nifer o gyn-fyfirwyr Met Caerdydd yn derbyn swyddi. Penodwyd cyn-gapten Cymru a'r Llewod, Ryan Jones, yn Bennaeth Cyfranogiad, yn atebol i gyn-fyfirwr arall o Brifysgol Met Caerdydd, Prif Swyddog Gweithredol Undeb Rygbi Cymru, Martyn Phillips. Penodwyd un arall o'n cyn-fyfirwr, Geraint John, yn Bennaeth Perfformiad Rygbi. Mae staff Warren Gatland gyda'r tîm cenedlaethol hefyd yn cynnwys y Pennaeth Dadansoddi Perfformiad, Rhodri Bown, a oedd yn yr un flwyddyn â Ryan yn y brifysgol, a Marc Kinnaird, sef un o nifer o ddadansoddwyr talentog a fu'n astudio yng Nghanolfan Dadansoddi Perfformiad y Brifysgol. Maent yn ychwanegu at y myrdd o chwaraewyr a staff cynorthwylol a fu'n astudio ar gampws Cyncoed.

Cyhoeddodd y Brifysgol gynlluniau i ddatblygu ysgol y cyfryngau a chyfathrebu fawr mewn partneriaeth â Phoenix Education, sef un o is-gwmnïau'r cwmni teledu Tsieineaidd blaenllaw, Phoenix Satellite Television Holdings, a ardystiwyd gan Gyngor Dinas Caerdydd.

Ar ddechrau'r sesiwn academaidd, roedd y Brifysgol yn y safle gorau yn y DU am ddarparu cymorth cyffredinol i fyfyrwyr rhyngwladol yn arolwg blynyddol y Baromedr Myfyrwyr Rhyngwladol (ISB) am y chweched tro.



Y tîm yn dathlu ar ôl ennill rownd derfynol genedlaethol cwpan BUCS am y degfed tro yn Stadwm Twickenham, y brifysgol gyntaf yn y DU i wneud hynny.



## Partneriaethau Rhyngwladol

Y Brifysgol yw un o sylfaenwyr garag Erasmus, sef rhwydwaith proffesiynol cenedlaethol Erasmus. Mae garag Erasmus yn cysylltu cyn-aelodau Erasmus – mwy na 3 miliwn o bobl sydd rhwng 20 a 50 oed ar hyn o bryd – i'w helpu i ddod o hyd i swyddi addas, creu busnesau newydd a chyfrannu at artoesedd economaidd a chymdeithasol yn Ewrop. Bydd hefyd yn helpu i gadw mewn cysylltiad â chyn-aelodau Erasmus, dilyn eu gyfaeodded a gweld eu patrymau symud, eu bahgenion dysgu gydaol oes a'u dyheadau ar ôl cael cymorth gan Erasmus. Mae'r Brifysgol wedi sicrhau mwy na €500,000 o gyllid Erasmus+ yn y ddwy rownd gyntaf.

Roedd tîm rygbi merched Met Caerdydd yn fuddugol am y degfed tro yn rownd derfynol cwpan Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS) yn Twickenham. Enillodd y tîm, sy'n cael ei hyfforddi gan hyfforddwr Tim Merched Undeb Rygbi Cymru, Rhys Edwards, naw gêm allan o ddeg gan sgorio cyfanswm o 628 o bwyntiau ac idio dim ond 21 drwy gydol y gystadleuaeth.

Ymwelodd pymtheg o fyfyrwyr israddedig o Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd â Sefydliad Technoleg Ffasiwn Beijing drwy raglen gyfnewid pythefnos o hyd a ariannwyd gan gronfa symudedd byrdymor y Brifysgol. Roedd yr ymweliad yn gyfle i fyfyrwyr o Gaerdydd a Beijing weithio ar y cyd gydag amserlen a oedd yn cynnwys rhaglen o ddarlithoedd, gweithdai i fyfyrwyr, sesiynau rhwydweithio ac arddangosfa o waith myfyrwyr Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd. Cafwyd hefyd gyfle unigryw i staff drafol y potensial o gynnal prosiectau ymchwil ar y cyd yn y dyfodol ac i roi cyngor i ddarpar fyfyrwyr.

Cefnogir symudedd rhyngwladol hefyd drwy aelodaeth y Brifysgol o Is-adran Fyd-eang Prifysgolion Santander, gan fod yr holl staff a myfyrwyr presennol yn gymwys i wneud cais am gyllid i ymweld ag unrhyw Brifysgol Santander arall ledled y byd.

Roedd mwy na 30 o gynadleddwyr o 13 o sefydliadau partner y Brifysgol yn Bahrain, Bwlgaria, Cyprus, yr Aifft, Gwlad Groeg, India, Libanus, Moroco, Oman, Singapôr, Sri Lanca a Chymru yn bresennol yng nghynhadledd bartneriaeth flynyddol Met Caerdydd. Ysgrifenydd Cyffredinol Arsyllfa Magna Carta, Mr David Lock, oedd y siaradwr ym mhrif sesiwn y Cynhadledd, a'r ffocws oedd tueddiadau o ran rhyngwladoli Addysg Uwch.

Cynhaliwyd cyfarfod consortiwm blwyddyn olaf prosiect EU-METALIC[1] II Erasmus Mundus a arweinir gan Brifysgol Met Caerdydd ym Moroco, gyda 29 o gyfranogwyr o 16 o sefydliadau partner mewn 10 gwlad yn bresennol. Diben y cyfarfod oedd dyfeisio strategaeth ar gyfer lledaenu'r prosiect, sy'n cynnig ysgoloriaethau i fyfyrwyr a staff ym Ewrop a Gogledd Affrica.

Mae'r Brifysgol wedi cyhoeddi cynlluniau i ddatblygu ysgol y cyfryngau a chyfathrebu fawr yn y briffddinas. Mae'r ysgol newydd yn bartneriaeth unigryw â Phoenix Education, sef un o is-gwmnïau'r cwmni teledu Tsieineaidd blaenllaw, Phoenix Satellite Television Holdings, ac mae Cyngor Dinas Caerdydd yn annog y prosiect hwn. Dyma'r fenter ar y cyd gyntaf o'i math gyda chwmmi preifat a phrifysgol yn y DU. Ym mis Chwefror, llofnododd y tri pharti femorandwm cyd-ddealltwriaeth yn Y Plasty, Caerdydd, i gadarnhau eu hymrwymiad i ddatblygu'r prosiect hwn. Yr uchelgais yw codi adeilad newydd a fydd yn gartref i ganolfan deledu a'r cyfryngau, mannau addysgu a llefyd i hyd at 2,000 o fyfyrwyr. Mae Phoenix Satellite Television Holdings yn gwmmi a restrir ar Gyfnewidfa Stoc Efrog Newydd a Hong Kong, ac mae ganddo chwe sianel sy'n darlledu i 360 miliwn o wylwyr ledled y byd. Mae gan Phoenix Education bedwar coleg y cyfryngau yn Tsieina. Mae cost ac amserlen y datblygiad yn dal i gael eu trafod.

Roedd mwy na 30 o gynadleddwyr o 13 o sefydliadau partner y Brifysgol yn Bahrain, Bwlgaria, Cyprus, yr Aifft, Gwlad Groeg, India, Libanus, Moroco, Oman, Singapôr, Sri Lanca a Chymru yn bresennol yng nghynhadledd bartneriaeth flynyddol Met Caerdydd. Ysgrifenydd Cyffredinol Arsyllfa Magna Carta, Mr David Lock, oedd y siaradwr ym mhrif sesiwn y Cynhadledd, a'r ffocws oedd tueddiadau o ran rhyngwladoli Addysg Uwch.

Cynhaliwyd cyfarfod consortiwm blwyddyn olaf prosiect EU-METALIC[1] II Erasmus Mundus a arweinir gan Brifysgol Met Caerdydd ym Moroco, gyda 29 o gyfranogwyr o 16 o sefydliadau partner mewn 10 gwlad yn bresennol. Diben y cyfarfod oedd dyfeisio strategaeth ar gyfer lledaenu'r prosiect, sy'n cynnig ysgoloriaethau i fyfyrwyr a staff ym Ewrop a Gogledd Affrica.

I adeiladu ar lwyddiant y dathliadau Diwrnod Byd-eang yn 2014 a 2015, cynhaliodd y Brifysgol ei Hwylthnos Fyd-eang gyntaf ym mis Mawrth. Rhoddodd y digwyddiad gyfleoedd i fyfyrwyr ddatlu, dysgu a rhannu gwerthoedd a thraddodiadau wrth i unigolion o ystod o wahanol genedigryddau a chefnidroedd sgwrsio, integreiddio a rhwydweithio.

Gwnaeth grŵp o athrawon o Singapôr gymryd rhan mewn rhaglen wythnos o hyd a drefnwyd gan Ysgol Addysg Caerdydd y gwanwyn hwn. Diben yr ymweliad astudio, a drefnwyd drwy brosiect Academi Athrawon Addysg Gorfforol a Chwaraeon (PESTA) Llywodraeth Singapôr, oedd rhoi cipolwg i'r ymwelwyr ar sut i caiff pwnc addysg gorfforol ei addysgu yng Nghymru. Mae'r Brifysgol yn gobioithio ymestyn y gwaith o rannu arfer da drwy ragor o gydweithio tebyg.

Mae'r Brifysgol wedi dyfarnu ysgoloriaethau'r Is-ganghellor i ddau fyfyrwr o CTI Education, sef prifysgol bartner Met Caerdydd yn Ne Affrica. Bydd y myfyrwyr, a fydd yn astudio ar gyfer cymwysterau ôl-radd, yn cyrraedd Caerdydd ym mis Medi.



## Seilwaith ac Ystad



Uchod: Cynlluniau ystad Campws Cyncoed.

Neuadd chwaraeon yw cam cyntaf Strategaeth Ystadau newydd ar gyfer Campws Cyncoed. Dechreuodd y gwaith ar y safle ym mis Tachwedd 2015, a phan fydd wedi'i gwblhau, bydd yn gwella'r cyfleusterau presennol i fyfyrwyr ar y campws ac i chwaraewyr ac athletwyr o'r radd flaenaf, a bydd hefyd yn darparu rhagor o gyfleoedd i'r gymuned leol.

Canolfan chwaraeon arall yw'r ail gam, a fydd yn dechrau ym mis Ionawr 2018, a bydd yn cynnwys pwll nofio newydd yn lle'r pwll presennol a adeiladwyd yn y 1960au. Hefyd, bydd trac rhedeg newydd yn cael ei ddatblygu. Mae'r Brifysgol wedi bod yn ffodus i gael grant o £250,000 ar gyfer y cyfleusterau chwaraeon newydd hyn gan Sefydliad Garfield Weston. Mae'r gwaith hefyd yn dal i fynd rhagddo ar ailwampio Neuaddau Preswyl Cyncoed.

Ar Campws Llandaf, mae gwaith wedi dechrau ar ail gam y gwaith o ad-drefnu'r Ysgol Gwyddorau Iechyd. Disgwylir i'r gwaith hwnnw gael ei gwblhau ddiwedd mis Awst 2016.



Prifysgol Metropolitan Caerdydd





## Neges gan y Canghellor a Chadeirydd y Llywodraethwyr

Barbara Wilding, CBE, QPM

Mae 2015-16, sef blwyddyn sefydlu rôl y Canghellor, wedi bod yn flwyddyn wirioneddol hanesyddol i'r Brifysgol, ac fe'i dathlwyd drwy ddiwyddiadau amrywiol gan gynnwys ein cinio 150 mlyneddiant yn Ninas Caerdydd ym mis Tachwedd, lle cefais y fraint o gael fy sefydlu fel Canghellor cyntaf y Brifysgol erioed.

Fel Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, fy mhriif gyfrifoldeb ar hyn o bryd yw penodi olynnydd i'r Athro Chapman, sy'n ein gadael ar ôl 18 mlynedd yn ei rôl.

Mae gwaddol yr Athro Chapman yn arwyddocaol mewn sawl ffordd, ond yn arbennig o ran ad-drefnu a datblygu ein hystad ar ddau gampws addysgu; enill Pwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil; sicrhau Teitl Prifysgol ac ymreolaeth barhaus y Brifysgol; sefydlu rôl y Canghellor a datblygu profiil gwirioneddol ryngwladol o ran addysgu ac ymchwil.

Bydd y Llywodraethwyr a minnau yn sicrhau bod ei olynnydd yn adeiladu ar y gwaddol hwn er mwyn i'r Brifysgol barhau i fod yn sefydliad llwyddiannus a chynaliadwy sydd ag enw da am ansawdd ac effaith ei gwaith, gyda'r myfyrwyr a chyflogadwydd graddedig wrth wraidd ei gweithgareddau.

## Neges gan y Llywydd Anrhydeddus ac Is-Ganghellor

Y Cynghorydd David Walker

Fel Arglwydd Faer Caerdydd ar gyfer 2015-16, roedd yn fraint dal swydd Llywydd Anrhydeddus ac Is-Ganghellor Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

Gellir olrhain treftadaeth Met Caerdydd yn ôl i 1865 pan sefydlwyd Ysgol Gelf Caerdydd yng nghanol y Ddinas. Felly, yn 2015 bu'r Brifysgol yn datlu ei phen-blwydd yn 150 oed. Caiff y Brifysgol ei galw'n "brifysgol newydd" Caerdydd, gan mai dim ond ers 23 mlynedd y mae'n cael ei llywodraethu'n uniongyrchol gan y Ddinas. Ers hynny, gan gydnabod ei threftadaeth, Arglwydd Faer y Ddinas yn Llywydd Anrhydeddus y Brifysgol, ac mae wedi bod yn bleser gennyf gyflawni'r rôl hon dros y flwyddyn ddiwethaf.

Hoffwn longyfarch pawb ar eu llwyddiannau, ac, fel Arglwydd Faer, hoffwn ddymuno'r gorau iddynt at y dyfodol ar ran Dinas a Sir Caerdydd.



O'r chwith i'r dde, Guir Anrhydeddus Arglwydd Faer Caerdydd, y Cynghorydd David Walker, Llywydd Anrhydeddus ac Is-Ganghellor Prifysgol Metropolitan Caerdydd; Barbara Wilding, CBE, QPM, Canghellor y Brifysgol a Chadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, a'r Athro Antony J Chapman, Llywydd ac Is-Ganghellor.

## Neges gan y Llywydd ac Is-Ganghellor

Yr Athro Antony J Chapman

Mae recriwtio myfyrwyr o'r DU yn fwy cystadleuol nag erioed, ac rydym wrth ein bodd bod ein lefelau recriwtio yn dal mor gadarnhaol, gan gynnwys myfyrwyr tramor ac yn ein 'lleoliadau trawswladol' dramor.

Mae hyn yn arwydd o waith caled a llwyddiannau llawer o bobl yn y Brifysgol – Bwrdd y Llywodraethwyr, y Bwrdd Gweithredol a'r staff yn gyffredinol.

Mae boddhad myfyrwyr a'r posibilrwydd o ddod o hyd i waith neu astudiaethau pellach ar ôl cwblhau cwrs gradd yn bwysicach nag erioed.

Mae mwy na 95% o'n myfyrwyr yn cyflawni hyn o fewn chwe mis ar ôl graddio – un o'r ffigurau uchaf ymhlith holl sefydliadau addysg uwch y DU.

Mae hyn i raddau helaeth o ganlyniad i ansawdd ein hadysgu a'n hymchwil, fel sydd i'w weld mewn nifer o lwyddiannau eleni – gan gynnwys Gwobr y Frenhines am Addysg Uwch ac Addysg Bellach.

Mae profiad y myfyrwyr yn hollbwysig, ac roedd yn bleser gennym weld y Brifysgol yn cael ei henwi yr orau yn y DU am ei Chymorth i Fyfyrwyr Rhyngwladol am y chweched tro.



Myfyrwyr Celf a Dylunio Met Caerdydd yn ymweld â phrifysgolartner yn Tsieina, Mai 2016



Y Parchedfael Ddr Barry Morgan, Archesgob Cymru, yn awelin y Gwasanaeth yn yr Eglwys Gadeiriol i ddathlu 150 mlyneddiant y Brifysgol



Noson yng nghwmni John Cridland, Cyfarwyddwr Cyffredinol y CBI



Gwasanaeth Carolau Met Caerdydd yn Eglwys Gadeiriol Llandaf



Cinio dathlu 150 mlyneddiant Met Caerdydd



Awryslch carnifal yng Ngŷyl Met Caerdydd



Agor cyfleusterau arlwyio newydd ar Gampws Llandaf



Clwb Pêl-droed Prifysgol Met Caerdydd, Pencampwyr Adran Cyntaf Cynghrair Cenedlaethol Cymru 2015-16



## Rhagoriaeth Ymchwil - y Brifysgol yn cael ei chydnabod gyda Gwobr Pen-blwydd y Frenhines

Cafodd y Brifysgol ei chydnabod yng Ngwobrau Pen-blwydd y Frenhines am Addysg Uwch ac Addysg Bellach 2015, a ddyferir bob dwy flynedd. Sefydlwyd y Gwobrau yn 1994 ac fe'u dyferir mewn cydnabyddiaeth o waith hynod ragorol. Cafodd y Brifysgol ei chydnabod am fod ar flaen y gad, ers tua phymtheng mlynedd, o ran defnyddio gwaith dylunio a thechnolegau sganio digidol 3D cysylltiedig mewn perthynas â llawdriniaeth ail-lunio'r genau a'r wyneb wrth drin clefyd neu yn dilyn trawma.

Mae'r gwaith arloesol yn y maes hwn, a gyflawnir drwy Ganolfan Dylunio ac Ymchwil Ryngwladol (PDR) y Brifysgol, wedi sicrhau bod modd cynhyrchu dyfeisiau yn gyflym i'w defnyddio mewn triniaethau llawfeddygol. Mae hyn wedi arwain at fanteision uniongyrchol o ran creu prosthetigau i gleifion unigol a chyfrannu at ddatblygiadau sylweddol ym maes hyfforddi llawfeddygol drwy wella cywirdeb wrth ddefnyddio efelychu mewn hyfforddiant llawfeddygol a chymwysiaidau addysgol eraill.

Nodweddir gwaith PDR gan arloesedd, ac yn datblygiad pwysig yw'r defnydd o dechnoleg gyffwrddiadol i greu platiâu penglog â siâp naturiol a lunnir yn ddigidol. Mae hyn yn lleihau'r amser a nifer yr ymriadau llawfeddygol sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniad gorau. Mae defnyddio'r technolegau hyn wedi gwella ansawdd ac urddas bywyd i fwy na dwy fil o gleifion, yn ogystal ag arbedion sylweddol o ran arian cyhoeddus.

Partneriaethau agos rhwng technolegwyr yn y Brifysgol a llawfeddygon a chlinigwyr eraill mewn ysbectri amrywiol sydd wedi sbarduno'r defnydd o'r dull gweithredu hwn, sy'n parhau i ddarparu gwasanaethau arloesol i'r GiG o ran rheoli achosion cymhleth ac yn rhyngwladol drwy gysylltiadau sy'n hyrwyddo'r gwaith mewn gwledydd megis Tsieina, Japan ac UDA.



THE QUEEN'S ANNIVERSARY PRIZES FOR HIGHER AND FURTHER EDUCATION 2015

## Gweithio gydag eraill i atgyfnerthu Addysg Uwch

Agorwyd Lolfa Ddysgu Ysgol Uwchradd Willows yn swyddogol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams AC. Prosiect yw hwn gan Raglen Ymestyn yn Ehangach Campws Cyntaf (a arweinir gan Brifysgol Met Caerdydd ar y cyd ag Ysgol Uwchradd Willows yng Nghaerdydd), a wnaed yn bosibl gan gymorth hael busnesau lleol. Dan gyfarwyddwyd Sarah McCall, a raddiodd o Brifysgol Met Caerdydd, cymerodd myfyrwyr Ysgol Uwchradd Willows a'u teuluoedd ran mewn prosiect i ailddylunio Canolfan Ddysgu'r ysgol. Y briff oedd dylunio man a fyddai'n addas ar gyfer dysgu ac yn lle croesawgar i aelodau o'r gymuned.

Meddai Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, am y ganolfan newydd: "Mae'n braf gweld prosiectau cydweithredol fel hyn, sy'n dwyn ynghyd arbenigedd o fyd addysg yn ogystal â'r gorau o'r gymuned leol. Mae hwn yn fuddsoddiad sylweddol yng nghenedlaethau'r dyfodol o ddysgwyr ac rwy'n sicr y bydd y cyfleuster hwn yn darparu'r math addas o amgylchedd i'w helpu i lunio eu dyfodol."

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gytundeb pum mlynedd o hyd â Chlwb Rhwyfo Llandaf sy'n cynnwys ailwampio cyfleusterau presennol y gampfa. Mae'r gwaith hwn wedi gwlednewid man hyfforddi dan do'r clwb, gan gynnwys gosod deunydd inswleiddio, gwaith plastro, gwifrau trydanol a ffenestri newydd.

Ym mis Ebrill, cafodd seminar ei threfnu a'i chynnal gan Brifysgol Met Caerdydd er mwyn trafod y ffyrdd gorau o helpu pobl ifanc sy'n ceisio lloches yn y DU. Disgrifiodd pobl ifanc eu profiadau o lygad y ffynnon fel ceiswyr lloches yng Nghymru. Trefnwyd y gynhadledd gan Dr Tina Alwyn, Darlennydd mewn Seicoleg Iechyd a Chaethiwed, a Dr Caroline Limbert, Cyfarwyddwyr y Rhaglen MSc Seicoleg Iechyd.

Argraffodd dylunwyr yn FabLab Met Caerdydd law 3D i Emilie Riddell, merch wyth oed o Bont-y-pwl, Gwent, a aned â blysedd anghyflawn ar ei llaw chwith a braich dde gyflawn. Mae ei llaw 'Raptor' pinc llachar yn debyg i'r fraich a wnaeth FabLab bron yn llwyr o blastig i Cian Morris, sy'n bum mlynedd oed o Lwynypia, y Rhondda, y llynedd. Caiff y breichiau hyn eu gwneud bron yn gyfan gwbl o blastig gyda gwifrau metel a'u gosod ar y fraich â Velcro, a chânt eu rheoli drwy blygu'r arddwrn.

Cydweithiodd yr Ysgol Gwyddorau Iechyd â'r darparwr tai a gwasanaethau pobl hyn lleol, Derwen Cymru, i lansio ystafell iechyd a lles newydd yn un o ganolfannau tai gwarchod Derwen. Cafodd prosiect Cadw'n Iach yn Eich Cartref ei redeg ar y cyd gan y Brifysgol a darparwr tai a gwasanaethau'r bobl hyn leol.



Cardiff Metropolitan University

Prifysgol Metropolitan Caerdydd



Detholiad o lwyddiannau ym maes chwaraeon yn ystod 2015-16

Arolwg o Gyrchfannau'r Rhai sy'n Gadael Addysg Uwch



Llwyddodd 95.6% o raddedigion i gael swydd neu ddilyn astudiaethau pellach o fewn chwe mis o raddio, yn ôl y data swyddogol diweddaraf.



Addysg Drawswladol (TNE)

Ymhlith y cyrchfannau TNE mae:

- Bahrain
- Bwlgaria
- Tsieina
- Cyprus
- Yr Aifft
- Gwlad Groeg
- Hong Kong
- India
- Libanus
- Llundain
- Moroco
- Oman
- Singapôr
- De Affrica
- De Korea
- Sri Lanca



Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (NSS)\*

Yn yr arolwg Cenedlaethol o Foddhad Myfyrwyr ar gyfer 2014-15, dywedodd 83% o'n myfyrwyr eu bod yn fodlon ag ansawdd eu cyrsiau.

Roedd 100% o'r myfyrwyr yn hapus â chwech o'n cyrsiau:
- Cyfrifyddu a Chyllid
- Saesneg a'r Cyfryngau Cyfoes
- Gofal Iechyd Cyflenwol
- Maetheg Ddynol a Dieteg
- Hyfforddi Chwaraeon
- Datblygu Chwaraeon

Arolwg PRES

Yn yr Arolwg cenedlaethol o Brofiad Ymchwil Ôl-raddedigion (PRES 2015) roedd 87% o'n myfyrwyr yn fodlon â'u rhaglen gradd ymchwil ar y cyfan. Y cyfartaledd ar gyfer y sector oedd 82%.



Myfyrwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, gan gynnwys partneriaethau cydweithredol De Cymru 10000



Cyfanswm y Myfyrwyr 20000

Myfyrwyr sydd wedi'u lleoli yn Llundain a thramor 10000

43% Ôl-radd a Addysgri

Allgylchuch y cyhoeddiad hwn.